**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Llywodraeth Cymru

Copi at: Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

30 Mehefin 2023

**Ynghylch: Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023**

Annwyl Jeremy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig **27 Mehefin 2023**, yn rhoi gwybod am eich bwriad i osod Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023 ("y Rheoliadau") gerbron y Senedd.

Gwnaethom drafod eich llythyr yn ein cyfarfod ddydd Iau 29 Mehefin 2023. Nodwn eich bod wedi gosod y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 27 Mehefin 2023. Ysgrifennaf atoch i gadarnhau nad yw'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar y Rheoliadau hyn a chyflwyno adroddiad arnynt.

Er bod y Pwyllgor wedi dewis peidio â gwneud gwaith craffu ar y Rheoliadau penodol hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod rheoliadau ynghylch Safonau'r Gymraeg a gwneud gwaith craffu arnynt yn y dyfodol. Hoffem wneud cais bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn y dyfodol i'r Pwyllgor wneud gwaith craffu o'r fath a chyhoeddi adroddiad cysylltiedig. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu hysbysiad ymlaen llaw ynghylch ei bwriad i osod rheoliadau o'r fath, ac wedi cynnig rhoi ystyriaeth i drafodaethau'r Pwyllgor ynghylch y rheoliadau dan sylw wrth drefnu dyddiad ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Byddem yn ddiolchgar pe byddai modd cynnwys trefniadau o'r fath wrth gyflwyno rheoliadau ynghylch Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.